NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Nusinersen ar gyfer trin atroffi cyhyrol yr asgwrn cefn

24 Gorffennaf 2019

Mae Nusinersen (Spinraza) ar gael ar y GIG fel triniaeth bosibl ar gyfer atroffi cyhyrol yr asgwrn cefn 5q (SMA) os yw'r canlynol yn gymwys:

- mae gan bobl atroffi cyhyrol yr asgwrn cefn cyn-symptomatig, neu fathau 1, 2 neu 3 o atroffi cyhyrol yr asgwrn cefn a
- dilynir yr amodau yn y cytundeb mynediad a reolir.

Mae rhagor o dystiolaeth ar nusinersen (Spinraza) yn cael ei chasglu, a gaiff ei hadolygu. Wedyn, cyhoeddir adolygiad o'r canllawiau ar ôl pum mlynedd. Bydd y cyffur ar gael drwy'r cytundeb mynediad a reolir tan hynny.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

### Gwybodaeth a chymorth

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- Spinal Muscular Atrophy Support UK, 01789 267520
- Muscular Dystrophy UK, 0800 652 6352
- TreatSMA, 0300 800 0202

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3245-0



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.